PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

tair canrif
dwy iaith
un brifysgol

Cylchgrawn arbennig **golwg** i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant 2010 - 11

Rhoi sêl ar ddyfodol newydd

Roedd 18 Tachwedd yn ddiwrnod pwysig i addysg yng Nghymru wrth i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant dderbyn ei Siartr, ei Statudau a'i Sêl Frenhinol.

Mae'n golygu cam pwysig yn y gwaith o greu patrwm newydd ar gyfer addysg prifysgol wrth i ddau o sefydliadau hyna' Cymru ddod at ei gilydd i dorri tir newydd ym maes addysg uwch yng Nghymru.

"Rydyn ni wedi cychwyn ar daith a fydd yn trawsnewid addysg yn yr ardal," meddai'r Is-ganghellor, Dr Medwin Hughes, ar ôl teithio i Lundain i dderbyn y dogfennau swyddogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Nhŷ'r Cyffredin.

Yn ogystal â chreu prifysgol mwya' newydd Cymru, fe fydd Y Drindod Dewi Sant yn cydweithio gyda cholegau Addysg Bellach – Coleg Sir Gâr, Coleg Sir Benfro a Coleg Ceredigion er mwyn creu llwybrau newydd sy'n arwain o un lefel i'r llall.

Dr Medwin Hughes, Is-Ganghellor a Dr Brinley Jones, Llywydd

Trawsnewid addysg: Glyn Jones, Coleg Sir Benfro, Dr Medwin Hughes, Jacqui Weatherburn, Coleg Ceredigion a Barry Liles, Coleg Sir Gâr.

Rydyn ni'n creu Prifysgol Secror Deuol, gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn chwarae rhan ganolog ynddo.

Mae'r Brifysgol newydd hefyd yn datblygu cyrsiau arloesol sy'n cael eu teilwrio'n arbennig i gwrdd ag anghenion Cymru yn y blynyddoedd nesa'.

"Mae creu'r Brifysgol yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gysylltu ag asiantaethau allweddol a chyflogwyr er mwyn rhoi cyfle i ragor o bobl ennill sgiliau uwch," meddai'r Is-Ganghellor.

"Mae'r uno'n golygu ein bod yn gallu buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau hefyd ar ein dau gampws, yn Llambed a Chaerfyrddin.

Coleg Cymraeg – y Brifysgol yn allweddol

Fe fydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn lansio Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y flwyddyn newydd, gan ei gosod ei hun yn un o gonglfeini'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Campws Caerfyrddin oedd wedi gweld y cynnydd mwya' yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg yn ystod y tair blynedd ddiwetha', a hynny o blith holl sefydliadau addysg uwch Cymru.

Yn awr, fe fydd yn ychwanegu cyrsiau a modylau newydd, gan gynnwys rhai sy'n manteisio ar arbenigedd y campws yn Llanbed.

"Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn i'r sector addysg uwch cyfrwng Cymraeg," meddai Gwilym Dyfri Jones, awdur y strategaeth. "Bydd gan y Drindod Dewi Sant rôl ganolog i'w chwarae yn llwyddiant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol."

Fe fydd y Brifysgol yn cynnig mwy a mwy o raglenni academaidd a galwedigaethol, meddai, a hynny o fewn awyrgylch naturiol ddwyieithog, gyda mwy na 1100 o siaradwyr Cymraeg eisoes yno.

Mae bron i dri chwarter y rheiny yn dewis astudio o leia' rannau o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ac, er mwyn cynyddu'r rhif eto, mae'r Brifysgol wedi creu trefn sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol a modylau Cymraeg Proffesiynol i helpu gyda mynegiant ar lafar ac ar bapur.

"Mae hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithog yn rhan greiddiol o genhadaeth y Brifysgol ac yn rhan annatod ohoni," meddai Gwilym Dyfri Jones. "Wrth weithredu'r Strategaeth uchelgeisiol newydd, ry'n ni'n anelu at gynnydd mawr pellach."

Cyrsiau'r drwy'r Gymraeg yn Y Drindod Dewi Sant? Dyma pam:

- Mae mwy na 90% o raddedigion dwyieithog yn cael gwaith o fewn chwe mis.
- Mae rhai cyrsiau'n llwyr trwy'r Gymraeg, eraill yn ddwyieithog.
- Mae Ysgoloriaethau'r Brifysgol ar gael ar gyfer astudio trwy'r Gymraeg – gwerth £600 y flwyddyn – ac mae'r Brifysgol yn rhan o gynllun ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n cynnig hyd at £1,000 y flwyddyn.
- Creu'r cyfle i ddilyn modylau Cymraeg Proffesiynol neu Loywi laith a chael cefnogaeth eang gan swyddogion penodol.
- Mae'r Brifysgol wedi penodi llawer o staff newydd i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn nifer fawr o feysydd.
- Mae awyrgylch Cymraeg mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf, gyda chyfle i gymdeithasu a chael profiad gwaith trwy gyfrwng yr iaith.

Campws Caerfyrddin: 01267 676767
Campws Llanbedr Pont Steffan: 01570 422351
www.ydrindoddewisant.ac.uk

Rhoi llais – a chyfle – i gefn gwlad

Fe fydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn gwneud cyfraniad allweddol yn y blynyddoedd nesa' i feysydd sy'n bwysig yn nyfodol Cymru.

Un o'r rheiny yw cymunedau cefn gwlad – fe fydd y Brifysgol yn defnyddio'i sefyllfa unigryw i helpu datblygu polisi a strategaethau newydd ac i baratoi myfyrwyr sy'n gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr yn y maes.

Mae'r Sefydliad Cynaladwyedd sydd wedi ei sefydlu yn y Brifysgol yn delio gyda llawer mwy na'r amgylchedd; fe fydd hefyd yn ysgogi trafodaeth ac yn datblygu polisïau mewn meysydd fel economi a diwylliant.

"Fe fydd y Sefydliad yn sefydlu prosiectau er mwyn datblygu syniadau a'u profi nhw," meddai Meri Huws, Dirprwy Is-Ganghellor Arloesi, Sgiliau a Chymuned y Drindod Dewi Sant.

"Fe fydd hefyd yn tynnu arbenigwyr at ei gilydd trwy gyfrwng seminarau a dulliau eraill i drafod a datblygu polisi."

Eisoes mae Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy Cymru, Peter Davies OBE, wedi ei benodi' i Gadair yn y Brifysgol er mwyn arwain gwaith y Sefydliad.

Mae Memorandwm hefyd wedi ei arwyddo gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog, Prifysgol Cymru a chymdeithas y tirfesurwyr siartredig, RICS.

Y nod yw ystyried polisïau cynllunio yn y cyd-destun gwledig gan dynnu ar arbenigedd y campws yn Llanbed ym maes anthropoleg, archeoleg a thirwedd.

Fe fydd y gwaith yn cynnwys cynllunio at y dyfodol gyda gradd meistr newydd ym maes Rheoli Tirweddau Gwledig.

"Mae cyrff eraill yn ystyried cynllunio mewn trefi a dinasoedd ond mae'n bwysig datblygu polisïau sy'n benodol ar gyfer cefn gwlad," meddai Meri Huws.

Cau'r bwlch

Ymgyrch arloesol i ddenu dynion i fyd addysgu

Fe fydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn arloesi gyda chynllun i gau un o fylchau mawr byd addysg.

Iwan Taylor - hyfforddai addysg athrawon

Fe fydd hefyd yn cynnig cyfle arbennig o dda am yrfa a swyddi i garfan allweddol o fyfyrwyr.

Fe fydd yr Ysgol Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon yn cynnal ymgyrch y flwyddyn nesaf i geisio denu bechgyn mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i ystyried gyrfa ym myd addysg.

Fe allai helpu i ddatrys un o bryderon mawr byd addysg – yr ofn fod diffyg athrawon gwrywaidd yn arwain at ddiffyg llwyddiant ymhlith bechgyn. Yng Nghymru, mae mwy nag 11,800 o fenywod yn athrawon cynradd a llai na 2,150 yn ddynion.

Ond fe fydd hefyd yn anelu at ddatblygu rhagor o athrawon gwrywaidd sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Mae'r gwahaniaethau o ran cyflawniad a chyrhaeddiad bechgyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi'u trafod mewn sawl adroddiad dros yr ugain mlynedd diwethaf - yng Nghymru a thu hwnt," meddai Pennaeth yr Ysgol, Marian Thomas.

"Yn ôl Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'r llynedd, menywod oedd 84.7% o athrawon ysgolion cynradd.

"Yn y flwyddyn olaf eleni ar y cwrs BA Addysg yn Y Drindod Dewi Sant, mae 73 yn hyfforddi, deg ohonyn nhw'n fechgyn a thri o'r rheiny'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr ail flwyddyn, o blith y 120, mae yna 15 o fechgyn a thri sy'n siarad Cymraeg."

Yn ôl Marian, mae galw mawr am athrawon gwrywaidd ac, yn arbennig am rai sy'n medru'r Gymraeg. Roedd un ysgol wedi penodi tri o fyfyrwyr gwrywaidd y Brifysgol yn ystod yr haf.

Denu menywod at dechnoleg gwybodaeth

Fe gafodd nifer dda o fenywod flas ar yrfa ym maes cyfrifiaduron a thechnoleg gwybodaeth diolch i bartneriaeth rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a'r corff hyrwyddo W-Tech Cymru.

Fe ddaethon nhw i gampws Llanbed ar gyfer diwrnod o sgyrsiau a gweithdai i ddangos yr holl gyfleoedd sydd ar gael i fenywod yn y maes.

Yn ôl ystadegau diweddar, dim ond 15% o'r gweithwyr proffesiynol yng Nghymru ym maes technoleg gwybodaeth sy'n fenywod.

"Mae e-skills UK yn rhagweld bod angen 5,000 o bobl ar gyfer swyddi newydd yn y diwydiant yng Nghymru bob blwyddyn," meddai Roisin Mullins, Darlithydd mewn Systemau Gwybodaeth yn Ysgol Fusnes y Brifysgol.

"Roedd y digwyddiad yn dangos y cysylltiadau cryf rhwng y Drindod Dewi Sant gyda phrifysgolion eraill, a chyda sefydliadau a chymunedau Cymru," meddai Roisin.

Cafodd y digwyddiad ei drefnu gan Menywod @ BCS, sef is-grŵp o'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Technoleg Gwybodaeth, gyda chefnogaeth Chwarae Teg, Cynghrair Meddalwedd Cymru, Menywod mewn Technoleg a Technocamps.

Ysgol Fusnes newydd yn mentro i'r dyfodol

Mae amrywiaeth o gyrsiau mentrus a chyfoes yn cael eu creu wrth i nifer o adrannau ar draws dau gampws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ddod at ei gilydd i greu Ysgol Fusnes newydd, yn bwerdy i'r economi lleol.

Mae'r adran Rheolaeth a Thechnoleg Gwybodaeth yn Llanbed wedi ymuno gydag adran Gyfrifiadura, Busnes a Thwristiaeth Caerfyrddin er mwyn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau ar lefel gradd ac ôl-radd.

Mae cydweithwyr o'r ddau gampws wedi bod yn brysur yn cyfarfod ac yn gweithio ar yr ystod o gyrsiau a fydd yn cael eu cynnig o fis Medi 2011 ymlaen.

Yn ychwanegol at gyrsiau poblogaidd fel Rheolaeth Busnes, Cyfrifiadureg, Technoleg Gwybodaeth a Thwristiaeth – sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd – mae rhaglenni newydd yn cynnwys pynciau megis 'Technoleg Gwybodaeth Gwyrdd' a 'Rheoli Sefydliadau Cymdeithas Gyhoeddus'.

Cangen arall o'r ysgol fydd yr adran Dysgu Seiliedig ar Waith, a fydd yn gweithio gyda chyflogwyr ledled Cymru i gynnal rhaglenni datblygu staff a gwneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd y safon.

Mae'r Ysgol Fusnes newydd eisoes wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu ffynonellau mawr o arian Ewropeaidd.

Nod un prosiect yw cefnogi busnesau gan ddefnyddio technegau creadigol sy'n ysgogi arferion arloesol ac yn codi ysbryd cystadleuol y busnesau bach a chanolig sy'n cymryd rhan.

"Mae hwn yn gyfnod cyffrous ar gyfer y brifysgol newydd" meddai Pennaeth yr Ysgol Fusnes, Conny Matera-Rogers.

"Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion a'n gwaith, nid yn unig ar y myfyrwyr presennol, ond hefyd ar gysylltu mwy gyda busnesau a chymunedau yn ne-orllewin Cymru fel y gallwn helpu ein gilydd i gwrdd â her yr hinsawdd economaidd bresennol."

Torri'r mowld – Ysgol Gelf newydd yn dod â Phrifysgol a Choleg at ei gilydd

... ac yn cynnig gradd Gelf a Dylunio yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Ysgol Y Diwydiannau Creadigol newydd yn arwydd o ddyfodol addysg brifysgol yng Nghymru.

Mae'n dangos model newydd o gydweithio ac yn torri tir newydd trwy gynnig gradd gelf trwy'r Gymraeg am y tro cynta' erioed yng Nghymru.

Mae'r ysgol newydd yn golygu partneriaeth rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr gan dynnu at ei gilydd gryfderau'r ddau sefydliad.

Y nod yw creu darpariaeth wych ym maes celf a dylunio yn ne-orllewin Cymru – gan gynnwys cyfle i astudio gradd yn gyfangwbl drwy'r Gymraeg.

O fis Medi y flwyddyn nesa' fe fydd Y Drindod Dewi Sant yn dilysu holl gyrsiau'r Ysgol sy'n gweithredu ar draws sawl gwahanol gampws.

Ac fe fydd artistiaid enwog yn cyfrannu at y radd newydd BA Anrhydedd Celf a Dylunio sydd ar gael yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg - yn eu plith Bryan Thomas, Iwan Bala, a Gwenllian Beynon.

Caroline Thraves

Profiad eang

"Ar hyn o bryd mae nifer sylweddol o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn y Drindod Dewi Sant yn manteisio ar y ffaith bod darlithwyr celf fel ni yn cynnal trafodaethau a seminarau drwy gyfrwng y Gymraeg," meddai Iwan Bala, a fydd yn Uwch-ddarlithydd yn yr Ysgol.

"Mi fydd y cwrs newydd yn cynnig profiad eang o waith ymarferol ac yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr drafod a datblygu rhaglen astudio sydd wedi'i phersonoli ar eu cyfer nhw mewn meysydd arbenigol, a hynny er mwyn cyd-fynd â'u diddordebau a'u hanghenion penodol."

"Bydd modd iddyn nhw hefyd ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch datblygiadau cyffrous ym maes celfyddyd ryngwladol gyfoes, y celfyddydau cymhwysol a dylunio yn ei gyd-destunau a'i farchnadoedd."

Roedd staff y ddau sefydliad yn edrych ymlaen at yr her o dynnu at ei gilydd, meddai Caroline Thraves, gan weithio i sicrhau fod y ddau ddiwylliant gwahanol yn toddi i'w gilydd.

"Mae cydweithwyr y ddau sefydliad yn gweithio'n galed i sicrhau bod y bartneriaeth newydd yn datblygu'n ddi-dor a bod yr holl fyfyrwyr yn cael elwa o'r ddarpariaeth newydd," meddai.

Chwyldro addysg yn y man gwaith

Y Drindod Dewi Sant yn arwain y ffordd

Mae tîm o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn arwain gyda'r gwaith o ddatblygu mathau newydd o gyrsiau yn y man gwaith.

Mae'n golygu fod gweithwyr yn gallu cael credydau am y sgiliau sydd ganddyn nhw eisoes ac am fentora eu cydweithwyr.

Mae aelodau o'r tîm Arfer Proffesiynol a Dysgu'n Seiliedig ar Waith ar hyn o bryd yn datblygu'r ddau brosiect – LATERAL a Mentora – a fydd ar gael yn rhad ac am ddim i weithwyr mewn busnesau bach neu ganolig eu maint.

Cafodd LATERAL ei greu i helpu gweithwyr i adnabod ac ennill clôd ffurfiol am y sgiliau, y galluoedd a'r wybodaeth lefel uwch y maen nhw'n eu defnyddio wrth eu gwaith, gyda'r credydau'n gallu arwain at dystysgrif, diploma, gradd neu gymhwyster ôl-radd.

Pwrpas 'Mentora ein Gweithlu' yw cynnig hyfforddiant gyda chredydau i aelodau o staff sy'n gweithredu fel mentoriaid – gan seilio'r hyfforddiant ar y gwaith ymarferol a gwella'r berthynas rhwng y dysgwr unigol ac anghenion eu cwmni.

Erbyn hyn, mae'r staff i gyd wedi eu penodi i'r ddau brosiect. Bydd pob dysgwr unigol yn derbyn cefnogaeth oddi wrth diwtoriaid modiwl, cynghorwyr academaidd, cydlynydd rhaglen a mentoriaid yn y gweithle.

A hwythau'n fyfyrwyr i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, fe fyddan nhw hefyd yn cael cefnogaeth yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Ganolfan Adnoddau Dysgu.

Mae staff LATERAL hefyd yn cydweithio gyda nifer o Gynghorau Sector Sgiliau, megis Cyngor Gofal Cymru, er mwyn sicrhau bod anghenion y sector yn cael eu diwallu wrth gynllunio a threfnu'r credydau.

Bydd y ddau gynllun yn anelu at ddefnyddio'r dechnoleg newydd er mwyn cyrraedd gweithwyr amrywiol. Y bwriad yw creu adnoddau sydd ar gael ar-lein i'r *iphone* a'r *ipad*, ac fe fydd e-lyfrau ar gael i gefnogi'r dysgu. Bydd cyswllt pellach drwy flogiau a thrydar.

A fo ben bid sioe!

Fe fydd Branwen yn croesi Môr Iwerddon unwaith eto, diolch i brosiect rhyngwladol dan arweiniad yr Ysgol Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau.

Ym mis Mawrth, fe fydd y myfyrwyr yn perfformio sioe gerdd sy'n adrodd hanes y Dywysoges Gymreig trwy actio, pypedau a gwaith animeiddio. A'r gobaith yw gwneud hynny ar ddwy ochr y môr.

Mae'n enghraifft o sut y mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn manteisio ar bob math o gynlluniau i gynnig cyfleoedd unigryw i'r myfyrwyr.

Fe fydd y Brifysgol yn cydweithio gyda sefydliadau yn Iwerddon, trwy gyfrwng cynllun o'r enw CORACLE sy'n datblygu cysylltiadau rhwng cymunedau creadigol a diwylliannol yn y ddwy wlad.

"Mae'r Ysgol Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau yn un o brif ganolfannau hyfforddiant i ddarpar berfformwyr ac actorion yng Nghymru," meddai Pennaeth yr Ysgol, Iestyn Llwyd. "Roedd hi'n glir i'r staff bod cynllun CORACLE yn cynnig potensial cyffrous i ddatblygu cyfleoedd arbennig."

Gan fod stori Branwen o'r Mabinogi yn digwydd yn Iwerddon a Chymru, roedd hi'n ddewis amlwg, meddai.

Erbyn mis Mawrth, fe fydd ef ac Eilir Owen Griffiths, Tiwtor Cerdd a Threfnydd Diwylliannol, wedi sgrifennu sgript a chaneuon ar gyfer y cynhyrchiad.

Caiff cynllun CORACLE ei ariannu gan Yr Undeb Ewropeaidd trwy arian Interreg.

Crefydd – y brif ganolfan ar gyfer y Gymraeg

Datblygu meysydd newydd i'w hychwanegu at y traddodiadol

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant bellach yw'r brif ganolfan yng Nghymru ym maes Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pedwar aelod newydd o staff wedi eu penodi i'r Brifysgol gan gynnwys Pennaeth yr Ysgol Diwinyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol ac Astudiaethau Islamaidd, Yr Athro Densil Morgan.

Fe fydd yn golygu ehangu'r astudiaethau i feysydd newydd heblaw'r Beibl a diwinyddiaeth draddodiadol, gyda phwyslais newydd ar astudio crefydd o gyfeiriad cymdeithaseg, anthropoleg a hanes.

Fe fydd hefyd yn manteisio ar arbenigedd y campws yn Llanbed ym maes crefyddau mawr eraill y byd, a chrefyddau brodorol.

"Er bod y proffil cyfrwng Cymraeg wedi bod yn gryf yn y meysydd Beiblaidd a diwinyddol, roedd yr Ysgol yn awyddus i ehangu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg i faes Astudiaethau Crefyddol," meddai Densil Morgan.

"Datblygiad strategol yw hwn sy'n anelu at gryfhau'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, gan sefydlu canolfan ragoriaeth genedlaethol ar gyfer dysgu ac ymchwil mewn Diwinyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol ac Astudiaethau Islamaidd."

"Un o fwriadau'r Ysgol yw datblygu meysydd newydd sy'n canolbwyntio ar grefydd a'r byd cyfoes yn ogystal â pharhau â'r gwaith da oedd wedi'i ddatblygu ym Mangor."

Lucy'n mynd yn ôl i Ohio

Yn y flwyddyn newydd fe fydd un o raddedigion cwrs BA Yr Actor a'r Celfyddydau ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn teithio i'r Unol Daleithiau i weithio am flwyddyn gyfan.

A hithau'n hanu yn wreiddiol o Sir Gaerfyrddin, bydd Lucy Thomas, sy'n 21 oed, yn mynd yn aelod o staff preswyl newydd yng Nghanolfan Gymraeg Madog ym Mhrifysgol Rio Grande, Ohio.

Ac nid dyma'r tro cynta' iddi fod yno – diolch i bartneriaeth rhwng y ddwy brifysgol, fe gafodd fod yn rhan o raglen gyfnewid gyda Rio Grande yn ystod ei hail flwyddyn.

Bryd hynny, fe gafodd gyfle i berfformio mewn drama yn The Producer's II Theatre yn Efrog Newydd a chanu yn Llysgenhadaeth Prydain yn Washington DC.

"Roedd y profiad o gael astudio mewn Prifysgol a gwlad wahanol yn gyffrous iawn ac fe ddysgais lawer am y byd perfformio tra allan yn Ohio, felly ar ôl graddio yn 2010 penderfynais ddychwelyd i'r Unol Daleithiau."

Mae hi eisoes wedi cael profiad o weithio yng Nghanolfan Madog hefyd.

"Yno, fe ges i gyfle gwych i fynd i ŵyl Gymreig Gogledd America yn Portland, Oregon gan gyfarfod â llawer o Americaniaid o dras Gymreig a mynychu nifer o gyflwyniadau am Gymru.

"Roedd yn brofiad gwych cael ymweld â thalaith wahanol a chael bod yno i gynrychioli Canolfan Madog, ac fe arweiniodd hynny tuag at y cynnig o'r swydd bresennol – cyfle na fedrwn i ei wrthod!"

Yn y swydd newydd, fe fydd yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gwneud gwaith marchnata a datblygu'r ddealltwriaeth am Gymru.

Ond mae hefyd yn edrych ymlaen at gael cyfle i ddilyn ei diddordeb penna' trwy helpu yn yr Adran Theatr a Pherfformio yn y Brifysgol.

Fydd hi ddim yn unig chwaith – fe fydd yn gweithio ar gynyrchiadau gyda'r criw diweddara' o fyfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i groesi Môr Iwerddon.

"Fe fyddan nhw'n cymryd rhan yn y rhaglen gyfnewid yn union fel y gwnes i," meddai Lucy. "Fe fydd yn dod â'r profiad at dro crwn perffaith!"

Mynd am y Rio Grande

Mae gan bedwar o fyfyrwyr Prifysgol Y Drindod Dewi Sant rywbeth i edrych ymlaen ato eleni.

Roedd y myfyrwyr o'r Ysgol Theatr Cerdd a'r Cyfryngau'n paratoi hefyd at daith fawr yn y Flwyddyn Newydd, i dreulio pedwar mis yn astudio ym Mhrifysgol Rio Grande, Ohio.

Mae'r daith yn rhan o fodiwl Astudiaeth Annibynnol Rhyngwladol ac o raglen gyfnewid reolaidd rhwng y ddwy brifysgol.

Fe fydd y pedwar - Ceri Lewis o Gaernarfon, Dion Lloyd Jones o Borthmadog, Laura Thomas o Gilcennin ger Aberaeron ac Elin Wyn Williams o Gaerfyrddin – yn ymuno gyda'r gyn-fyfyrwraig Lucy Thomas sy'n darlithio yn Ohio am gyfnod.

"Mae'r rhaglen gyfnewid yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr i astudio dramor am dymor tra'n ennill 60 o gredydau tuag at eu gradd," meddai Elin.

"Fyddwn ni'n byw ar y campws ac yn dilyn cwrs astudiaeth llawn amser ar y cyd gyda myfyrwyr Americanaidd sy'n argoeli i fod yn brofiad unigryw!

"Mae yna hefyd gynlluniau ar y gweill i ni weithio ar gynhyrchiad theatrig dan arweiniad y cyfarwyddwr Dr Greg Miller, sydd â chysylltiadau â'r diwydiant ffilm yn Hollywood."

Fe fydd y myfyrwyr hefyd yn cael hoe o astudio er mwyn dysgu mwy am y wlad, gan gynnwys teithiau a chyfle i gymdeithasu gyda'r bobl leol tros bryd bwyd neu mewn nosweithiau arbennig.

Saith ar daith gyda sioe am y sianel

Fe gafodd criw o fyfyrwyr gyfle i ymateb mewn ffordd feiddgar a ffresh i argyfwng y sianel deledu S4C – a chael credydau am eu gwaith.

Fe gawson nhw hefyd brofiad amhrisiadwy yn creu'r sioe gyfoes, wrth i'r sianel fynd o un argyfwng i'r llall. Ac wedyn fe gawson nhw ei pherfformio hi ar hyd a lled Cymru.

Fe fu'r saith sydd ar eu trydedd flwyddyn yn Ysgol Theatr Cerdd a'r Cyfryngau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ar daith gyda'u cynhyrchiad, '4 waleS/C england: S4C ddoe, heddiw – ac yfory?'.

Roedden nhw'n gweithio mewn partneriaeth gydag un o gwmnïau cymunedol mwya' bywiog y wlad, Theatr Troed-y-rhiw o Geredigion, ac roedd y sioe yn cymryd golwg fentrus ar y sianel a'i thrafferthion diweddar.

Bydd y sioe yn cyfrif tuag at radd y myfyrwyr sydd ar y cwrs BA Y Celfyddydau Perfformio a'r Cyfryngau Creadigol, ac yn cynnwys asesiad o'u perfformiadau a'u cyfraniad at greu'r sioe.

Y saith oedd: Carley Bennington o Aberpennar, Jobe Bruzas o Gaerdydd, Tomos Hopkins o Aberystwyth, Bethan Marsh o'r Barri, Elen Morgan o Landysul, Simon Thomas o Fotwnnog a Nia Tudor o Bontyberem.

"Roedd hi'n fraint cydweithio â'r myfyrwyr hyn oedd yn cyfrannu'r fath egni a gonestrwydd at drafodaeth sydd o'r pwys mwyaf i barhad a datblygiad y diwylliant a'u magodd," meddai Euros Lewis, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Troed-y-rhiw a darlithydd yn y Brifysgol.

Y West End – diolch i'r Drindod Dewi Sant

Mae un o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn anelu am lwyfannau'r West End; mae un arall ar fin dechrau ar sioe gerdd gyflawn gynta'r Theatr Genedlaethol.

Mae Ifan Gwilym Jones, a raddiodd o'r Ysgol Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau yn 2009, erbyn hyn yn gwneud cwrs ôl-radd mewn Theatr Gerddorol yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain.

Ac mae'r perfformiwr ifanc o'r Barri yn diolch i'w diwtoriaid yn Y Drindod Dewi Sant ei fod wedi cael cyfle i berfformio o flaen neb llai na Stephen Sondheim – Duw y theatr gerddorol!

"Wrth gwrs, i diwtoriaid y Drindod a wnaeth fy argymell i y mae'r diolch am y cyfle hwn, ac am roi disgyblaeth ac agwedd broffesiynol i fi.

"Yn ogystal â gweithio gyda chyfarwyddwyr fel Nic Ros ac Ian Rowlands a thiwtoriaid gwych fel Eilir Owen Griffiths, Euros Rhys Evans a John Quirk, cefais gyfle tra'n y Drindod i deithio gyda'r Theatr Genedlaethol, i astudio yn Ohio am dri mis ac i berfformio ein drama ein hunain yn Efrog Newydd."

Ifan Gwilym Jones

Y paratoi'n talu i Lynwen

Mae Lynwen Haf Roberts, a raddiodd eleni, eisoes yn paratoi i droedio'r llwyfan proffesiynol, ac mae hithau'n diolch i'r Drindod Dewi Sant.

Ym mis Mawrth ac Ebrill 2011, fe fydd y ferch o Langadfan, Maldwyn, ar daith yng nghynhyrchiad 'Deffro'r Gwanwyn' gan y Theatr Genedlaethol Cymru, sef cyfieithiad Dafydd James o'r sioe gerdd boblogaidd 'Spring Awakening'.

"Hon fydd y sioe gerdd gyflawn gyntaf i'r Theatr Genedlaethol felly dw i'n llawn cyffro - gan 'mod i'n ffan fawr o'r sioe wreiddiol ac wedi gweld perfformiad byw ohoni yn America. Mae'n gamp bersonol a phroffesiynol i fod ynddi!

"Fydden i'n sicr yn argymell treulio tair blynedd ar y cwrs yn y Drindod oherwydd y modd y mae'n eich paratoi chi ar gyfer y byd perfformio."

"Tra o'n i yno, ges i gyfle amhrisiadwy i gymryd rhan mewn cynyrchiadau teithiol mewn theatrau amrywiol ledled Cymru."

"Roedd y profiadau y tu fas i'r gwaith cwrs yr un mor fuddiol, yn enwedig y cyfle i ganu mewn cyngherddau yng Nghymru a thu hwnt cyda chôr y coleg, gan gynnwys dathliadau wythnos 'Wales in New York' a lansiad Gŵyl y Smithsonian yn Washington DC."

Mae un arall o'i chyd-raddedigion, Gwydion Rhys, newydd orffen y sioe, Cwrw Chips a Darlith Deg gyda chwmni'r Arad Goch.

Dial a streic – filoedd o flynyddoedd yn ôl

Roedd dial un o'r duwiau a streic ryw yn rhan o'r cwricwlwm i fyfyrwyr yn Ysgol y Clasuron yn Y Drindod Dewi Sant.

Dyna bynciau dwy o ddramâu mawr y byd Clasurol ac eleni fe gafodd y myfyrwyr weld y ddwy – y Bacchae a Lysistrata – yn cael eu perfformio'n fyw, yn rhan o'u hastudiaethau.

Ond maen nhw hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan, gan drefnu perfformiad o un arall o'r dramâu mawr, Merched Caerdroia.

"Does dim modd astudio'r hen fyd heb edrych ar theatr y cyfnod," meddai Errietta Bissa, Cyd-bennaeth Dros Dro'r Ysgol sy'n denu myfyrwyr o bob rhan o wledydd Prydain.

"Roedd drama yn gymaint rhan o fyd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid â rhyfel, athroniaeth ac ymerodraethau. Roedd y myfyrwyr ar y tripiau theatr wrth eu bodd yn gwylio perfformiadau modern o'r dramâu hynafol y maen nhw'n eu hastudio."

Ychwanegodd "Perfformiad myfyrwyr yr Ysgol Theatr a Pherfformio oedd y Bacchae ac fe ganiataodd hyn i fyfyrwyr ar ddau gampws y Brifysgol i ddod at ei gilydd i rannu eu gwaith academaidd".

Geiriau bach – camp fawr

Mae cynllun arloesol i roi'r Gymraeg o fewn cyrraedd miloedd o blant bach am y tro cynta' wedi cael sêl bendith y Llywodraeth ac un o bwyllgorau'r Cynulliad.

O ganlyniad, mae Geiriau Bach yn ehangu i rannau newydd o Gymru ac mae'n bosib y bydd rhagor o ehangu'n dilyn eto.

Mae'r cynllun yn golygu fod plant bach mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael blas cynnar o'r iaith a hynny mewn ffordd fywiog, llawn hwyl.

Dan arweiniad yr Ysgol Plentyndod Cynnar Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae cynorthwywyr dosbarth di-Gymraeg, athrawon ac eraill sy'n gweithio gyda phlant rhwng 3 a 7 oed yn cael eu hyfforddi i ddysgu'r iaith i'r disgyblion bach.

Gyda deg grŵp mewn gwahanol ardaloedd o Gymru, o Gaerffili i Hwlffordd ac o Abertawe i Landudno, fe gafodd y prosiect hwb pellach ym mis Awst, gyda sicrwydd o arian i hyfforddi cynorthwywyr dosbarth tan fis Mawrth 2013.

Y flwyddyn nesa', felly, fe fydd grwpiau newydd yn dechrau yn ne-ddwyrain a gogledd-ddwyrain Cymru. Ac mae'r Ysgol yn recriwtio yn ardaloedd Aberystwyth a Llanelli.

Mae'r myfyrwyr yn ennill y Dystysgrif Addysg Uwch Cymraeg ac Ymarfer Dwyieithog yn y Blynyddoedd Cynnar (Lefel 4).

Mae'r pwyslais ar brofi'r Gymraeg yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen lle mae plant bach yn dysgu trwy chwarae a phrofiad ac mae'r cynllun hefyd yn cefnogi staff sy'n gweithio gyda phlant o dan 3 oed ac sydd eisiau dysgu Cymraeg iddyn nhw.

Ddiwedd Medi, cyhoeddodd Pwyllgor Menter a Dysgu adroddiad yn argymell rhoi rhagor o gefnogaeth i Geiriau Bach a sicrwydd tymor hir i'r cynllun.

Fe ddywedodd y pwyllgor ar y pryd eu bod "yn meddwl yn fawr o'r ethos a'r dulliau" oedd yn cael eu defnyddio.

Llyfrau i Lesotho – myfyrwyr yn mynd i Affrica i helpu

Ym mis Medi, roedd llwyth o lyfrau newydd yn cyrraedd coleg ar ben arall y byd, diolch i brosiect ar y cyd gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Trwy weithio gyda Choleg Addysg Lesotho yn Affrica, y nod yw gwella safonau hyfforddi myfyrwyr er mwyn gwella addysg gynradd a meithrin y wlad.

Datblygodd y prosiect llyfrau, sy'n cael ei gefnogi gan Sefydliad Waterloo yng Nghaerdydd, ar ôl i grŵp o 13 o fyfyrwyr o Ysgol Addysg a Hyfforddiant Gychwynnol Athrawon yng Nghaerfyrddin dreulio tair wythnos yn y Coleg yn Lesotho.

Bu'r myfyrwyr a'u darlithydd, Eileen Merriman o'r Ysgol Plentyndod Cynnar, yn dysgu mewn ysgolion cynradd ac yn ymweld ag ysgolion meithrin lleol, gan dreulio amser gyda darlithwyr sydd newydd sefydlu Rhaglen Tystysgrif mewn Addysg Plentyndod Cynnar.

"Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r Coleg yno yw'r diffyg adnoddau i hyfforddi myfyrwyr, sydd yn eu tro fel athrawon yn wynebu diffyg adnoddau i hyfforddi'r plant," meddai Eileen Merriman.

Ac ar ôl treulio ychydig amser mewn dosbarth meithrin gydag athro-fyfyriwr, fe ddaeth yn amlwg i Eileen nad oedd ganddyn nhw unrhyw lyfrau stori i'w defnyddio wrth ddysgu Saesneg.

"Nod Prosiect Llyfr Lesotho 2010 felly yw sicrhau digon o lyfrau stori a lluniau Saesneg i ddechrau llyfrgell - i gynorthwyo darlithwyr i hyfforddi athro-fyfyrwyr ac i gynorthwyo'r athrawon i ddysgu'r plant."

Erbyn mis Medi roedd 51 o lyfrau wedi'u prynu ac fe gawson nhw'u cludo i Lesotho gan 13 o fyfyrwyr a thri aelod o staff gan eu cyfuno gyda theganau cartref er mwyn gwneud sachau stori i gefnogi'r broses adrodd straeon.

Ar hyn o bryd, mae Eileen yn gweithio gyda siopa lyfrau yn Ne Affrica gerllaw i drefnu bod copïau lluosog o lyfrau testun penodol yn cael eu datblygu.

Meddai Eileen: "Mae'r gwaith da'n parhau!"

Herio'r plant wrth arloesi ym myd addysg

Fe fydd plant bach Cymru'n cael eu herio gyda phob math o dasgau difyr y tu allan i'r stafell ddosbarth, diolch i ddeunyddiau sy'n cael eu datblygu yn Y Drindod Dewi Sant.

Dyma'r llwyddiant diweddara' i'r Brifysgol wrth helpu Cymru i arloesi ym maes dysgu wrth chwarae ar gyfer plant rhwng tair a saith oed.

Canolfan Peniarth, Ysgol Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon a enillodd dendr gan y Llywodraeth i greu llyfrau, CD Rom, llawlyfr i oedolion, posteri a chardiau her ar gyfer prosiect Archwilio'r Amgylchedd.

Y nod yw helpu'r plant i ddysgu am yr amgylchedd trwy ddatblygu sgiliau sy'n cynnwys craffu a chymharu, archwilio, gwrando, gofyn ac ateb, gwneud penderfyniadau a datrys problemau. Fe fydd y sgiliau'n ddefnyddiol ar gyfer meysydd eraill y Cyfnod Sylfaen.

Fe fydd y cardiau her yn rhoi sialensiau ymarferol i'r plant, er enghraifft sut i ail gylchu casgen blastig wag a'i defnyddio i dyfu tomatos bach a mefus.

Mae llawer o bwyslais y Cyfnod Sylfaen ar fod allan yn yr awyr iach ac fe fydd y deunyddiau newydd yn rhoi cyfle i'r plant weithio eu hunain neu ar y cyd.

Fe fydd yr adnoddau mewn setiau Cymraeg a Saesneg ac yn cynnwys 16 o lyfrau darllen llawn gwybodaeth. Fe fydd y CD Rom yn golygu bod modd taflu lluniau o'r llyfrau ar fwrdd gwyn rhyngweithiol yn y dosbarth.

"Y gobaith yw y bydd y deunydd yn ychwanegu'n werthfawr tuag at brofiadau plant o ddarganfod ac archwilio drostynt eu hunain eu hamgylchedd tu allan i furiau'r dosbarth traddodiadol," meddai Gwydion Wynne, cyfarwyddwr y ganolfan.

Cannoedd yn mynd am yr AUR

Nid yn yr haf y mae'r unig seremoniau i ddathlu llwyddiant academaidd yn Y Drindod Dewi Sant.

Fis Rhagfyr eleni, fe fydd tua 450 o fyfyrwyr chweched dosbarth yn cael eu canlyniadau ar ôl gwneud cyrsiau unigryw sy'n eu paratoi at fywyd mewn prifysgol.

Nhw yw'r diweddara' i fanteisio ar Gynllun Aur Y Drindod Dewi Sant ac mae cannoedd yn rhagor yn y broses o wneud y cyrsiau eleni. Mae'r enw'n dweud y cyfan – Anelu'n Uwch at Ragoriaeth.

Yn ogystal â chael blas o'r math o astudio y bydden nhw'n ei wneud mewn prifysgol, mae'r myfyrwyr hefyd yn cael tystysgrif a chymhwyster Lefel 4.

Yn ôl cyfarwyddwr y Cynllun, Vaughan Salisbury, mae'n gymhwyster gwerthfawr ar CV ac mae'r Brifysgol yn annog y myfyrwyr i sôn am y Cynllun wrth wneud eu ceisiadau UCAS.

Mae bron 30 o ysgolion a cholegau'n cymryd rhan – y rhan fwya' yn y Gorllewin ond gyda rhai cyn belled â'r Rhondda a Chastell Nedd Port Talbot.

Fe fydd cannoedd o ddisgyblion bob blwyddyn yn dod am gyfnod preswyl i'r Drindod Dewi Sant i astudio cyrsiau sy'n amrywio o bynciau eang fel sgiliau astudio neu Cymru, Ewrop a'r Byd, i bynciau arbenigol.

Wrth i'r Brifysgol newydd gael ei ffurfio, mae'r Cynllun Aur yn gallu manteisio ar lawer rhagor o adrannau arbenigol – mae un cwrs newydd Tsieineeg yn cael ei brofi yn Llanbed a chwrs Athroniaeth yn cael ei ddatblygu.

Fe fydd y Prifardd Mererid Hopwood, sy'n un o ddarlithwyr y Cynllun, hefyd yn gweithio gyda'r Adran Glasuron yn y Brifysgol i ddatblygu cwrs hynod, 'O Homer i Harry Potter', yn cymryd golwg wahanol ar ddiwylliant y Gorllewin tros filoedd o flynyddoedd.

Mae'r ymateb i'r cyrsiau wedi bod yn ardderchog, meddai Vaughan Salisbury, ac maen nhw'n cynnig pynciau a gwerth ychwanegol i'r ysgolion.

"Gobeithio y bydd cael y profiad yma'n ysbrydoli rhagor o bobl ifanc o bob cefndir i barhau gyda'u hastudiaethau mewn prifysgol," meddai.

Llyfrau newydd gan rai o staff Y Brifysgol

Ni biau Sieffre!

Mae llyfr newydd yn dweud yn bendant mai Cymro oedd un o'r dynion a gafodd fwya' o ddylanwad ar lenyddiaeth a hanes Ewrop.

Fel arfer, fe fydd Sieffre o Fynwy'n cael ei gysylltu gyda'r ieithoedd Lladin a syniadau rhamantaidd y cyfandir am y Brenin Arthur ond mae Dr Karen Jankulak o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ei hawlio'n bendant i Gymru.

Mae hi wedi cyhoeddi un o gyfrolau *Writers of Wales* am yr awdur ac esgob Llanelwy a wnaeth lawer i ddod ag Arthur i sylw'r byd yn y Canol Oesoedd.

Roedd ei gyfrol *Historia Regum Britanniae (Hanes Brenhinoedd Prydain)* yn ddylanwadol iawn ond, yn ôl Dr Jankulak, roedd yn driw i agwedd Cymry'r cyfnod at hanes ac yn wahanol i waith gan awduron eraill.

Mae hi'n pwysleisio'r cysylltiadau gyda thraddodiad Cymru – ac Iwerddon – o greu hanes dychmygol a gyda'r traddodiad Cymreig o broffwydo.

Hanfodol i'r Gymraeg

Mae'r Ysgol Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd yn unigryw – am mai hi yw'r unig Adran Gymraeg ym Mhrifysgol Gymru ac oherwydd ei phwyslais ar siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ac at ddefnydd ymarferol o'r iaith.

Yn awr, mae pennaeth yr Ysgol, Dr Christine Jones wedi cyhoeddi dau lyfr a ddaw'n hanfodol i unrhyw un sy'n dysgu Cymraeg – *Essential Welsh Grammar* a *The Complete Welsh Course*.

Fe fyddan nhw'n cael eu defnyddio yn y cyrsiau newydd i ddysgwyr sy'n dechrau ar gampws Caerfyrddin a'r ardal yn y flwyddyn newydd, ac ar gyrsiau preswyl sy'n cael eu cynnal yno ac yn Llanbed.

Mae'r Ysgol yn un mor flaengar gyda myfyrwyr iaith gynta', wrth ddatblygu Diploma Addysg Barhaus mewn Cyfathrebu Proffesiynol – mae honno ar gael i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr fel ei gilydd.

Mae'n cael ei chynllunio'n arbennig ar gyfer pobl sydd eisiau gwella eu Cymraeg ar gyfer gwaith a chyfathrebu.





Ar y meic ar y ward

Rhoi cyfle ymarferol i greu rhaglenni radio y mae un o brosiectau yr Ysgol Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau, gyda myfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn yn darlledu bob wythnos ar Radio Glangwili i'r ysbyty lleol.

Drwy'r prosiect, mae'r myfyrwyr, sydd gan fwyaf yn dilyn BA Cerdd a'r Cyfryngau neu BA y Cyfryngau Digidol, yn cael cyfle i gynhyrchu rhaglen wythnosol ddwy awr o hyd bob nos Lun.

Meddai Non Vaughan Williams, Cydlynydd Rhaglenni Cyfryngau yr ysgol.

"Y myfyrwyr sy'n gyfrifol am lunio trefn y rhaglen, yr eitemau byw ac ar dâp – nhw sydd hyd yn oed yn dewis y gerddoriaeth!"

"Y nod yw cynnig rhaglen Gymraeg ddiddorol i gleifion, ond ar yr un pryd i roi cyfle darlledu sy'n amhosib ei efelychu yn y dosbarth."

Darganfyddiadau newydd yn Ystrad Fflur

Mae Ysgol Archeoleg, Hanes ac Anthropoleg y Brifysgol ynghanol cyfres o ddarganfyddiadau pwysig yn un o'r safleoedd mwyaf allweddol yn hanes Cymru.

Maen nhw bellach yn gallu dangos mai yn Ystrad Fflur ger Pontrhydfendigaid yr oedd un o'r casgliadau mwya' o adeiladau mynachaidd yng ngwledydd Prydain.

Yr hyn sy'n drawiadol am waith cloddio'r Ysgol yn yr abaty yno yw bod y gymuned wedi bod yn rhan o'r gwaith ac fe fydd hi'n elwa'n economaidd a chymdeithasol o'r darganfyddiadau.

Dyna hefyd fydd un o nodweddion canolfan academaidd newydd sy'n cael ei sefydlu yn y Brifysgol – Academi Treftadaeth Cymru a fydd yn cael ei lansio ar Ddydd Santes Dwynwen, 25 Ionawr 2011.

Fe fydd honno hefyd yn gweithio gyda'r gymuned leol, yn cyfuno ymchwil, addysg a hyfforddiant, yn gweithio ar raddfa eang ar draws tirweddau cyfan a thrwy'r canrifoedd ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein dealltwriaeth o dreftadaeth Cymru.

"Ein harbenigedd cyntaf fydd rheoli treftadaeth a dehongli," meddai'r Athro David Austin, Cyfarwyddwr yr Academi, sy'n esbonio y bydd yr Academi'n cysylltu gyda'r gwaith dysgu sy'n digwydd yn yr Ysgol Archaeoleg, Hanes ac Anthropoleg, a gyda'r gwaith hyfforddi mewn crefftau treftadaeth sy'n cael ei wneud gan bartneriaid y Brifysgol yn Rhwydwaith Addysg Uwch a Phellach De-Orllewin Cymru.

Mae'r chwedl yn wir!

Fe fydd arbenigwyr o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn mynd ati i ddangos fod stori Cantre'r Gwaelod yn fwy na chwedl.

Ac fe fyddan nhw'n defnyddio'r technegau diweddara' i geisio dysgu rhagor am y bobl a oedd yn arfer byw yn y wlad "o dan y môr a'i donnau".

Fe fydd prosiect newydd gan yr Ysgol Archeoleg, Hanes ac Anthropoleg yn profi bod yr hanes yn wir a bod tystiolaeth o hynny yn y ffordd y newidiodd tir Cymru wedi diwedd Oes yr Iâ.

Fe fyddan nhw'n dangos y dystiolaeth i blant a phobl leol ac yn ymchwilio ymhellach i'r dystiolaeth sy'n aros o dan y dŵr.

"Tan ryw 6,000 o flynyddoedd yn ôl, roedd rhannau o Fae Ceredigion yn bendant yn dir sych ac mae nodweddion megis y goedwig danddwr yn Borth yn tystio i'r ffaith fod darnau helaeth o goedwig yn estyn drwy rannau o'r ardal hon yn y gorffennol," meddai Dr Martin Bates.

"Nawr r'yn ni'n gobeithio dangos patrwm y ddaear o dan y môr i gynulleidfa ehangach gyda chyfres o brosiectau arloesol."

Y cyntaf o'r rheiny fydd cynllun estyn-allan at ysgolion cynradd lleol, gan ddechrau yng ngwanwyn y flwyddyn nesa'.

Fe fydd yn cynnwys mynd â'r plant i weld y coedwigoedd tanddwr ac i glywed y stori'n cael ei hadrodd ar y traeth yn y fan a'r lle.

Ymhlith y cynlluniau eraill, mae cyflwyniad dramatig a phrosiect ymchwil ar draws sawl disgbyblaeth.

O gylch meithrin i ddarlithio!

Saith mlynedd yn ôl, roedd Nanna Ryder yn wraig ffarm a chynhorthwy-ydd dosbarth ac yn dechrau ar radd. Bellach mae'n Gymrawd Addysgu yn y Brifysgol.

Ar gampws Caerfyrddin yr astudiodd hi Addysg Blynyddoedd Cynnar, gan ddangos manteision dulliau hyblyg y Brifysgol o drefnu cyrsiau.

"Wrth ddilyn llwybr hyblyg, roedd modd i mi ddal ati i weithio fel cynorthwyydd ac astudio'n llawn amser, ac ro'n i'n ffodus iawn i ennill gradd dosbarth cyntaf." Ar ôl cwrs athro a blwyddyn mewn ysgol gynradd fe ddaeth yn ddarlithydd i ddechrau yn 2008 ac mae bellach yn arbenigo mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr Ysgol Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon.

"Y nod yw ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol ac ymhlith fy nyletswyddau y mae datblygu adnoddau ar gyfer myfyrwyr BA Addysg Gynradd."

Mae hefyd yn tiwtora, yn gwneud gwaith ymchwil ar arfer da mewn ysgolion ac yn datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog mewn meysydd fel dyslecsia ac astudiaethau cynhwysol.

"Mae'n sicr wedi bod yn llwybr ddiddorol iawn i wraig fferm a ddechreuodd ei gyrfa mewn cylch meithrin lleol," meddai.

Cyfle i ganu gyda Bryn!

Fe fydd myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant yn cael cyfle i ganu gyda bariton enwoca'r byd, wrth i Bryn Terfel gytuno i gymryd rhan yn Gŵyl! – gŵyl Gelfyddydau'r Brifysgol.

Fe fydd aelodau Côr y Drindod Dewi Sant ymhlith 200 o leisiau yn y cyngerdd arbennig yng Ngerddi Aberglasne yn Nyffryn Tywi, gydag Andrew Greenwood yn arwain.

"Mae'n fraint cael cydweithio gydag Aberglasne i gynnal y cyngerdd," meddai Is-Ganghellor y Brifysgol, Dr Medwin Hughes. "Mae'r ŵyl gelfyddydau flynyddol wedi croesawu perfformwyr rhyngwladol megis Karl Jenkins a Catrin Finch ac mae'n hyfryd cael ychwanegu Bryn Terfel at y rhestr.

"Mae'r ŵyl yn mynd o nerth i nerth gan ddangos ymrwymiad y Brifysgol i'r celfyddydau ac i sicrhau bod y rhanbarth hwn yn cynnal digwyddiadau o safon fyd-eang."

Mae Gŵyl! hefyd yn rhan o ymrwymiad y Brifysgol newydd i gryfhau'r cysylltiadau gydag ardaloedd Caerfyrddin a Llanbed ac i wneud cyfraniad i'r gymuned.

Gruff yn hyrwyddo'r Gymraeg

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw un o brif ddarparwyr Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, ac felly mae gan Gruff Ifan waith pwysig.

Ef yw'r Cydlynydd Addysg Cyfrwng Cymraeg, sy'n annog myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a'u darbwyllo o fanteision hynny.

Ymhlith y manteision bellach, mae'r ffaith bod Y Drindod Dewi Sant yn rhan o Gynllun Ysgoloriaethau newydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – o fis Medi 2011, fe fydd cyfle am gymorth ariannol o hyd at £1,000 y flwyddyn.

Dyna pam ei fod wedi helpu sefydlu Fforwm i roi cyfle i fyfyrwyr o bob adran roi eu barn ar bob agwedd o'r maes.

Elfen arall bwysig o waith Gruff yw cynorthwyo staff academaidd y Brifysgol i fanteisio ar gyfleoedd am gyllid ac i ddenu nawdd ar gyfer prosiectau cyfrwng Cymraeg.

"Yn sicr, mae bod yn rhan o'r holl ddatblygiadau yma'n gyffrous iawn wrth i'r Brifysgol baratoi i chwarae rôl amlwg o fewn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol," meddai Gruff.

Geraint yn agored i newid

Wrthi'n torri tir newydd gyda'r Ysgol Addysg Awyr Agored y mae'r darlithydd Geraint Forster o Landudoch, a ddechreuodd yn Gymrawd Dysgu Cyfrwng Cymraeg yno ym mis Medi.

Fe fydd yn datblygu cyrsiau trwy'r Gymraeg mewn maes lle maen nhw'n brin ac lle mae yna alw am weithwyr sy'n gallu'r iaith.

"Prin iawn hefyd yw canolfannau sy'n medru cynnig hyfforddwyr a hyfforddiant da o ran gweithgareddau awyr agored cyfrwng Cymraeg, ac mae hyn yn dangos felly pa mor bwysig yw'r datblygiadau yma yn y brifysgol".

"Mae'r cwrs ar hyn o bryd yn cynnig 6 modiwl y flwyddyn a'r gobaith yw sicrhau bod yna ddigon o fyfyrwyr i allu cynnig 2-3 o'r modiwlau gyda dewis o'u gwneud yn Saesneg neu Gymraeg."

Mae Geraint ei hun wedi newid cyfrwng hefyd – cyn hyn roedd yn ddarlithydd awyr agored ym maes addysg bellach cyfrwng Saesneg yng Ngholeg Gwent, Brynbuga.